

CYNGOR SIR

DYDD MERCHER, 14 GORFFENNAF 2021

YN BRESENNOL: Cyngorydd J.E. Williams (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:-

| | | | |
|---------------------|-----------------|-----------------|--------------------|
| F. Akhtar | S.M. Allen | L.R. Bowen | K.V. Broom |
| C.A. Campbell | J.M. Charles | D.M. Cundy | S.A. Curry |
| C.A. Davies | W.R.A. Davies | T.A.J. Davies | G. Davies |
| H.L. Davies | I.W. Davies | J.A. Davies | K.Davies |
| S.L. Davies | E. Dole | J.S. Edmunds | H.A.L. Evans |
| L.D. Evans | W.T. Evans | S.J.G. Gilasbey | C.J. Harris |
| P. Hughes-Griffiths | A.D. Harries | T.M. Higgins | J.K. Howell |
| P.M. Hughes | J.D. James | R. James | D.M. Jenkins |
| J.P. Jenkins | G.H. John | C. Jones | B.W. Jones |
| D. Jones | G.R. Jones | T.J. Jones | H.I. Jones |
| A. Lenny | M.J.A. Lewis | K. Lloyd | K. Madge |
| A.S.J. McPherson | E. Morgan | A.G. Morgan | S. Najmi |
| D. Nicholas | B.D.J. Phillips | J.S. Phillips | D. Price |
| J.G. Prosser | B.A.L. Roberts | H.B. Shepardson | E.M.J.G. Schiavone |
| A.D.T. Speake | L.M. Stephens | B. Thomas | D. Thomas |
| E.G. Thomas | G.B. Thomas | G. Thomas | J. Tremlett |
| A.Vaughan Owen | D.E. Williams | | |

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:-

W. Walters, Prif Weithredwr;

C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol;

G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant;

R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd;

P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad);

N. Daniel, Pennaeth TGCh a Pholisi Corfforaethol;

J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr;

L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith;

G. Morgan, Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd;

J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel;

J. Lewis, Rheolwr Partneriaeth Rhanbarthol;

I.R. Llewelyn, Rheolwr Blaen-gynllunio;

M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol;

E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;

C.J. Warwick, Peiriannydd Cymorth Digidol;

S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;

J. Owen, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Siambwr, Neuadd y Sir: 10.00 yb - 11.10 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr P. Edwards, C. Evans, R. Evans, A. Fox a D. Williams.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL.

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD.

- Aeth y Cadeirydd ati i longyfarch y Cynghorydd Dorian Phillips sydd wedi cael gwobr MBE gan y Frenhines i gydnabod ei wasanaethau i chwaraeon ac i'r gymuned yn Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro.
- Hefyd cafodd y canlynol eu llongyfarch ar ennill anrhydeddau'r frenhines:
 - Rhoddwyd gwobr OBE i Mr Nigel Vernon Short o Hendy-gwyn ar Daf am ei wasanaethau i'r economi yng Nghymru.
 - Dyfarnwyd Medal yr Ymerodraeth Brydeinig i Mr John Nicholas Anderson o Lanelli, sy'n Archwiliwr Gwirfoddol ar gyfer yr Asiantaeth Safonau Gyrrwyr a Cherbydau, am ei wasanaethau i drafndiaeth yn ystod Covid-19.
- Roedd y Cynghorydd Peter Hughes-Griffiths, gyda chaniatâd y Cadeirydd, yn dymuno rhoi gwybod am ddau beth sylweddol roedd y Cyngor wedi'u cyflawni:
 - Enillodd Wobr Aur Diogelwch Hamdden [RoSPA](#) am yr ail flwyddyn yn olynol am 'ragoriaeth ymhlith cwmnïau sy'n cynnig gwasanaethau'n uniongyrchol i westeion ac i ymwelwyr yn bennaf yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ionawr, 2020 a 31 Rhagfyr, 2020'. Mae'r gwobrau byd-eang, sef un o'r cynlluniau mwyaf nodedig a chydabyddedig yn y byd, yn cael bron i 2000 o geisiadau bob blwyddyn ac mae'n cyrraedd dros 7 miliwn o weithwyr. Mae hyn ar ôl cyflwyno polisiau ac arferion gwaith cynhwysfawr. Canlyniad hynny fyddai peidio â chael gwobr neu gael gwobr ar sail teilyngdod, efydd, arian neu aur. Enillwyd yr anrhydedd mwyaf.
 - Enillodd y 'Wobr Arian inSport am gynhwysiant anabledd' ar ôl cyflwyniad cynhwysfawr i banel cenedlaethol y bore yma. Mae hwn yn gynllun gwobrau cenedlaethol blaengar sy'n cydnabod dull cynhwysol y Cyngor o ran y modd y mae'r gwasanaeth yn cael ei lunio a'i ddarparu, a hynny yn y gymuned ac yn ei gyfleusterau, gan gynnwys gweithio mewn partneriaeth yn y Cyngor a thu hwnt.

Wrth roi gwybod ynghylch yr uchod, roedd y Cynghorydd Hughes-Griffiths am ddiolch yn ddiffuant i staff Chwaraeon a Hamdden Actif am eu gwaith caled dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn cyrraedd y man hwn. Ni ellir

cyflawni'r naill ddyfarniad na'r llall heb gael sylfeini cadarn sy'n arwain at arferion diogel a llwyddiannus.

- Roedd y Cynghorydd Hazel Evans, gyda chaniatâd y Cadeirydd, am longyfarch y canlynol:
 - Mr Gareth Davies o Gastellnewydd Emlyn ar gael ei ddewis i fynd i Dde Affrica gyda sgwad y Llewod ac wedyn sgorio cais a;
 - Gareth Thomas sy'n chwarae i'r Gweilch ar hyn o bryd am gael ei ail gap, a Josh Turnbull am gael 11 cap dros Gymru. Dechreuodd y ddau unigolyn eu gyrfaoedd chwaraeon yng Nghlwb Castellnewydd Emlyn.
- Rhoddodd yr Arweinydd, gyda chaniatâd y Cadeirydd, y wybodaeth ddiweddaraf am y rhaglen frechu a'i chynnydd hyd yn hyn ynghyd â chyfeirio at weithlu addysg y Cyngor, sef yr athrawon, y cynorthwywyr dosbarth, staff y gegin, y gyrwyr bysiau, y Penaethiaid, y Llywodraethwyr, y Penaethiaid Gwasanaeth a'r Cyfarwyddwr Addysg a phawb a fu'n rhan o'r gwaith o sicrhau diogelwch, gofal ac addysg plant Sir Gaerfyrddin dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Llongyfarchodd y Cadeirydd Siop Gymunedol a Swyddfa Bost Dryslwyn ar ennill Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol. Y wobr hon, a ddisgrifir fel MBE y Gwasanaeth Gwirfoddol, yw'r wobr uchaf y gall grŵp gwirfoddol ei hennill. Mae Gwobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol yn cydnabod gwaith rhagorol gan grwpiau gwirfoddol er budd eu cymunedau lleol. Eleni roedd yn braf gweld bod un fenter yn Sir Gaerfyrddin wedi derbyn yr anrhydedd. Bydd tystysgrif a gwobr gan Sara Edwards, Arglwydd Raglaw Dyfed, yn cael eu cyflwyno yn ddiweddarach yr haf hwn.
- Cyfeiriodd y Cadeirydd at y newyddion trist am farwolaeth mam y Cynghorydd Alun Lenny, ac ar ran y Cyngor, cydymdeimlodd â'r Cynghorydd Lenny a'i deulu yn eu profedigaeth.

4. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNOD CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWDYD AR 9 MEHEFIN 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL Iofnodi cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 9 Mehefin 2021 gan eu bod yn gywir.

5. DATGANIAD AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd yr Arweinydd fod Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a oedd yn cynnwys aelodau o Brif Gyngorau Cymru wedi ystyried adroddiad ar 5 Mawrth, 2021 ar Amrywiaeth mewn Democratiaeth. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth ynghylch y ffaith bod y Cyngor CLILC wedi cytuno'n unfrydol "i feithrin diwylliant lle caiff pob cynghorydd ei annog a'i gefnogi i hawlio unrhyw lwfansau neu dreuliau angenrheidiol y mae ganddynt hawl iddynt, a gofynnwn ichi arwain y diwylliant hwn yn lleol a'i annog."

Yn ogystal, roedd Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cytuno y dylai pob Cyngor ymrwymo i ddatganiad erbyn mis Gorffennaf 2021 ar ddod yn 'Gynghorau Amrywiol' yn 2022, i ddarparu ymrwymiad cyhoeddus, clir i wella amrywiaeth." Yn rhan o'r adroddiad hwn, cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar Ddatganiad 'amlinellol' i:

- Ddarparu ymrwymiad cyhoeddus, clir i wella amrywiaeth;
- Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;
- Ystyried amserau gwahanol o ran cynnal cyfarfodydd y cyngor a chytuno ynghylch cyfnodau o gymryd saib i gefnogi cynghorwyr ag ymrwymiaid eraill; a
- Gosod cynllun gweithredu erbyn etholiadau lleol 2022

Roedd yr adroddiad yn cynnig pe byddai'r Cyngor yn derbyn y Datganiad, byddai Pwyllgor y Gwasanaethau Democratiaidd yn cael y dasg o ddatblygu cynllun gweithredu cyn etholiad llywodraeth leol 2022.

Mewn ymateb i sylw a wnaed ynghylch y posibilrwydd o gynnal cyfarfodydd gyda'r hwyr er mwyn cynnig opsiwn arall a allai apelio at groestoriad ehangach o'r gymuned, dywedodd yr Arweinydd y canlynol; yn ogystal â'r cynllun gweithredu cyn etholiad llywodraeth leol 2022, fel mater o drefn, ar ddechrau Cyfnod Etholiadol, caiff arolwg ei ddosbarthu i bob Cynghorydd sy'n gofyn am eu dewisiadau unigol gan gynnwys amserau cyfarfodydd.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

5.1 bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymrwymo i fod yn 'Gyngor Amrywiol' ac yn cymeradwyo datganiad Amrywiaeth mewn Democratiaeth Cyngor Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i:-

- Ddarparu ymrwymiad cyhoeddus, clir i wella amrywiaeth;
- Arddangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;
- Ystyried amserau gwahanol o ran cynnal cyfarfodydd y cyngor a chytuno ynghylch cyfnodau o gymryd saib i gefnogi cynghorwyr ag ymrwymiaid eraill; ac
- Amlinellu cynllun gweithredu erbyn etholiadau lleol 2022.

5.2. bod Pwyllgor y Gwasanaethau Democratiaidd yn cael y dasg o ddatblygu cynllun gweithredu cyn etholiad llywodraeth leol 2022.

6. YSTYRIED ARGYMHELLION Y BWRDD GWEITHREDOL O RAN Y MATERION CANLYNOL:

6.1. RHAGLEN SGILIAU A THALENTAU, BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

6.1. RHAGLEN SGILIAU A THALENTAU, BARGEN DDINESIG BAE ABERTAWE

Dyweddod yr Arweinydd wrth y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2021 (gweler cofnod 8) wedi ystyried adroddiad yn manylu ar Achos Busnes arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Sgiliau a Thalent, o fewn y gyfres o 9 o brosiectau Bargaen Ddinesig Bae Abertawe, a fyddai'n rhoi ateb ar gyfer hyfforddiant sgiliau gan gynnig y gwerth gorau o ran seilwaith sgiliau cynaliadwy i ddatblygu gweithlu'r dyfodol ar gyfer y rhanbarth.

Adroddwyd y byddai datblygu rhaglen sgiliau gynhwysfawr a blaengar yn hanfodol i lwyddiant cyffredinol Portffolio'r Fargaen Ddinesig.

Byddai cyllid y Fargaen Ddinesig yn ariannu tîm rhaglen i ddatblygu Baromedr Sgiliau ar gyfer y rhanbarth. Byddai'r Baromedr yn nodi'r bylchau o ran sgiliau sydd yn y rhanbarth ac yn nodi'r sgiliau newydd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion presennol prosiectau'r Fargaen Ddinesig a'u hanghenion yn y dyfodol ar draws y pum thema allweddol, sef Adeiladu, Digidol, Ynni, Iechyd a Llesiant a Gweithgynhyrchu Clyfar. Byddai'r rhaglen yn cael ei chyflwyno ar draws y pedwar cam fel y nodir yn yr adroddiad.

Nododd y Cyngor mai nod cyffredinol y rhaglen fyddai cryfhau cydweithio a chynyddu buddsoddiad a fyddai'n rhoi hwb sylweddol i nifer yr unigolion medrus sydd wedi cael hyfforddiant drwy ymyrraeth y rhaglen, a'u safon.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

6.1.1 cymeradwyo'r Achos Busnes arfaethedig ar gyfer y Rhaglen Sgiliau a Thalentau a'i gyflwyno'n ffurfiol i'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn unol â Chynllun Gweithredu'r Fargaen Ddinesig er mwyn cymeradwyo cyllid y Fargaen Ddinesig;

6.1.2 rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Adfywio, ar y cyd â'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol - Arweinydd, wneud unrhyw fân newidiadau i'r achos busnes yn ôl yr angen er mwyn cael cymeradwyaeth ar lefel llywodraeth leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

6.2. LLOFNODWR Y SIARTER CREU LLEOEDD

Dyweddod y Dirprwy Arweinydd wrth y Cyngor fod y Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf 2021 (gweler cofnod 7) wedi ystyried adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Cyngor fod yn llofnodwr Siarter Creu Lleoedd Cymru.

Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd yr adroddiad yn amlinellu cyd-destun a diben Creu Lleoedd, ei rôl a'i statws o ran polisi cynllunio cenedlaethol a lleol yn ogystal â chynnwys y Siarter Creu Lleoedd. Datblygwyd y Siarter gan Gomisiwn Dylunio Cymru a Llywodraeth Cymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Creu Lleoedd Cymru, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli ystod eang o fuddiannau a sefydliadau sy'n gweithio o fewn yr amgylchedd adeiledig a naturiol.

Roedd yn adlewyrchu ymrwymiad y sefydliadau hyn yn unigol ac ar y cyd i gefnogi'r gwaith o ddatblygu lleoedd o ansawdd uchel ledled Cymru er budd ei chymunedau. Roedd yn cynnwys y chwe egwyddor creu lleoedd y byddai'r rhai a gofrestrodd yn cytuno i'w hyrwyddo fel rhan o'u cefnogaeth i greu lleoedd.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r argymhellion canlynol gan y Bwrdd Gweithredol:-

6.2.1 bod Siarter Creu Lleoedd Cymru yn cael ei chymeradwyo a bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn llofnodwr.

7. DERBYN ADRODDIAD CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALIWDYD AR:-

7.1. 1 MEHEFIN 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 1 Mehefin, 2021.

7.2. 21 MEHEFIN 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 21 Mehefin, 2021.

7.3. 5 GORFFENNAF 2021

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn adroddiad cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2021.

8. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW).

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

9. CWESTIYNAU GAN YR AELODAU:-

9.1. CWESTIWN GAN Y CYNGHORYDD EDWARD THOMAS I'R CYNGHORYDD HAZEL EVANS - YR AELOD Y BWRDD GWEITHREDOL DROS AMGYLCHEDD.

“Ar 25 Mehefin, cawsom y cadarnhad, a oedd i'w groesawu'n fawr, fod Ffordd Osgoi Llandeilo yn dal i fod yn rhan o Gynlluniau Llywodraeth Cymru i leddfu'r problemau sylweddol iawn o ran tagfeydd traffig a llygredd aer yn y dref.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yn Llandeilo yn falch o glywed y cyhoeddiad hwn a oedd yn cadarnhau yr ymrwymiad cyllidebol blaenorol i adeiladu'r ffordd osgoi.

A wnaiff yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol gytuno bod hwn yn newyddion i'w groesawu ac a wnaiff yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol hefyd ymrwymo'r Cyngor Sir i barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ffordd osgoi a hefyd i gefnogi cyflwyno mesurau atodol yng nghanol y dref er mwyn gwella ansawdd aer a mynd i'r afael â'r peryglon o ran troedffyrdd cul iawn i gerddwyr, adolygu cyfyngiadau parcio er mwyn cefnogi busnesau lleol a gwelliannau i'r strydoedd, ar ôl cwblhau'r ffordd osgoi."

Ymateb y Cyngorydd Hazel Evans, yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd:-

Diolch ichi am eich cwestiwn Gyngorydd Thomas. Rwy'n credu bod y cyhoeddiad gan y Dirprwy Weinidog nad yw ffordd osgoi Llandeilo yn rhan o adolygiad ffordd Llywodraeth Cymru yn newyddion gwych a chroesawir hyn yn fawr. Gwnaeth Llywodraeth Cymru gytundeb gyda Phlaid Cymru fel rhan o gytundeb y gyllideb yn 2016 i glustnodi £50m ar gyfer ffordd osgoi Llandeilo.

Mae'r achos dros ystyried y ffordd osgoi fel yr opsiwn mwyaf priodol ar gyfer lliniaru'r llygredd, y tagfeydd a'r perygl i gerddwyr a achosir gan symudiadau strategol y traffig drwy'r dref yn glir iawn. Gwnaethom fel awdurdod ymateb i'r ymgynghoriad gan ddatgan rhesymau cryf iawn pam mai'r ffordd osgoi yw'r unig ddewis yn y tymor hir. Gwyddom mai'r ffordd sy'n mynd drwy ganol Llandeilo yw'r gefnffordd o Abertawe i Fanceinion lle y mae nifer aruthrol o gerbydau mawr iawn yn teithio ar ei hyd, sy'n ychwanegu at y perygl i gerddwyr.

Yn 2013, pan oedd gwaith yn cael ei wneud ar bibellau nwy yn Llandeilo cafodd traffig ei ddargyfeirio i'r ffyrdd cul a oedd wedi cynyddu lefelau'r llygredd yn rhai o'r strydoedd gymaint â 220% ond mae hyn hefyd yn golygu bod cerdded o amgylch y dref yn fwy peryglus.

Mae gwaith arfarnu pellach ar y gweill. Roedd ymgynghoriad i fod i gael ei gynnal fis Ebrill diwethaf ond bu'n rhaid ei ganslo oherwydd COVID-19. Gobeithio y bydd yn cael ei gynnal pan fydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio.

Bydd y Cyngor Sir yn ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ffordd osgoi, a bydd hefyd yn ymrwymo i weithio ar waith atodol na fyddai'n bosibl heb y ffordd osgoi, megis ehangu troedffyrdd, gwella'r amgylchfyd cyhoeddus a chyflawni mesurau eraill i gefnogi busnesau lleol.

Byddaf yn trefnu bod llythyr arall yn cael ei ddrafftio i Lywodraeth Cymru ar ran y Cyngor yn cadarnhau hyn.

Nid oedd unrhyw gwestiynau ategol.

10. CYMARADWYO Y NEWIDIADAU CANLYNOL I AELODAETH PWYLLGORAU

Yn unol â Rheol Gweithdrefn Gorfforaethol 2(2)(n), roedd yr enwebiadau canlynol wedi dod i law gan y Grŵp Llafur a:

10.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo enwebiad y Cynghorydd Bill Thomas i gymryd lle'r Cynghorydd Amanda Fox fel un o gynrychiolwyr y Grŵp Llafur ar y Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd.

10.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gymeradwyo enwebiad y Cynghorydd Rob James i gymryd lle'r Cynghorydd Bill Thomas fel un o gynrychiolwyr y Grŵp Llafur ar y Pwyllgor Craffu - Addysg a Phlant.

11. COFNODION ER GWYBODAETH (AR GAEL AR Y WEFAN)

Dywedodd y Cadeirydd fod y cofnodion a amlinellir ar yr agenda o dan 11.1 – 11.9 ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

CADEIRYDD

DYDDIAD